



# Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Head Teacher  
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

---

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,  
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 ☎ 01443 219596  
[gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk](mailto:gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk)  
[www.gartholwg.co.uk](http://www.gartholwg.co.uk)

Gorffennaf, 2013

Annwyl Riant / Warchodwr,

A hithau'n prysur agosáu at ddiwedd y flwyddyn hoffwn ddiolch yn fawr i chi am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Dyma'r cyfle felly i ail-gyflwyno'r canllawiau ar gyfer gwisg a chyfarpar ysgol cyn i chi fynd ati i brynu'r pethau hynny.

Ein bwriad wrth ail-gyflwyno'r canllawiau yw cefnogi'n disgyblion a'u rhieni ac osgoi unrhyw wrthdaro dianghenraid allai godi yn sgil ffonau symudol/gwisg ysgol anaddas a.y.b. Rydym yn ffortunus iawn i gael lefel uchel o gefnogaeth gan ein rhieni a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gydweithio gyda ni i sicrhau bod ein pob ifanc yn hapus ac yn llwyddiannus.

Yn gywir,

Mrs. A. Williams  
Pennaeth



**Gwisg  
Ysgol Gyfun Garth Olwg**

Trowsus a sgert derbyniol isod.



**Canllawiau pwysig i rieni a  
disgyblion ar gyfer mis Medi  
2013**

## GWISG YR YSGOL

Mae gwisg ysgol yn symbol gweladwy o barch at gymuned yr ysgol rydym yn perthyn iddi. Ymfalchiwn yn ymddangosiad ein disgyblion a phwysleisir iddynt yn gyson bod y wisg gywir yn hanfodol ar bob adeg - o fewn yr ysgol a'r tu allan iddi, ar y ffordd i'r ysgol ac adre ar ddiwedd y dydd.

Gofynnir yn garedig i rieni gefnogi'r ysgol yn ein hymdrech i sicrhau ymddangosiad trwsiadus pob disgybl drwy sicrhau nad yw'r disgyblion yn gwisgo dillad 'ffasiwn' sy'n anaddas i fywyd bob dydd yn yr ysgol. (**Mae hyn yn cynnwys trowsus tynn megis Jeggins/Leggins , sgertiau byr, a throwsus o steil jeans neu ddefnydd denim**).

**Dyma'r canllawiau am wisg swyddogol dderbyniol:**

### BLYNYDDOEDD 7 – 11

Gwisg Gaeaf - Bechgyn	Gwisg Gaeaf - Merched
Cardigan du, <b>gwddf V</b> gyda bathodyn yr ysgol	Cardigan du, <b>gwddf V</b> gyda bathodyn yr ysgol
Siwmpwr ddu, <b>gwddf V</b> gyda bathodyn yr ysgol	Siwmpwr ddu, <b>gwddf V</b> gyda bathodyn yr ysgol
Tei ysgol (streipiau gwyrdd, du a llwyd)	Tei ysgol (streipiau gwyrdd, du a llwyd)
Crys gwyn	Crys gwyn plaen <b>sy'n cau at y coler</b>
Trowsus du plaen, ffurfiol	Trowsus du plaen, hir, ffurfiol neu sgert ddu ffurfiol at y pen-glin
Esgidiau du plaen ( <b>dim logos</b> ). Ni chaniateir "boots".	Esgidiau synhwyrol du <b>plaen</b> . Ni chaniateir "boots" nac esgidiau sodlau uchel
Sanau du	Sanau du Caniateir teits trwchus du yn unig.
Gwisg Haf - Bechgyn	Gwisg Haf - Merched
Fel yr uchod ond gyda chrys polo gwyn â bathodyn yr ysgol	Fel yr uchod ond gyda chrys polo gwyn â bathodyn yr ysgol,
Dim 'fflip-fflops' am resymau iechyd a diogelwch	Dim 'fflip-fflops' am resymau iechyd a diogelwch
Dillad tu fas - Bechgyn	Dillad tu fas - Merched
Cot ddu blaen (nid yw cotiau lledr yn addas i'r ysgol)	Cot ddu blaen (nid yw cotiau lledr yn addas i'r ysgol)
Sgarff ddu blaen (dewisol)	Sgarff ddu blaen (dewisol)
'Fleece' du gyda bathodyn yr ysgol	'Fleece' du gyda bathodyn yr ysgol

Caniateir i ddisgyblion wisgo hwdi chwaraeon swyddogol yr ysgol neu hwdi Mentoriaid Cyfoedion **y tu allan i adeilad yr ysgol** amser egwyl ac amser cinio yn unig. Ni chaniateir unrhyw hwdis eraill.

Ar wahân i wersi Addysg Gorfforol a Drama, **ni chaniateir gwisgo 'trainers'** ond ar gyfer chwarae gemau anffurfiol amser cinio.

### YMDDANGOSIAD

Er mwyn sicrhau safonau ymddangosiad uchaf ein disgyblion, nid yw'r ysgol yn caniatáu colur, paent ewinedd lliw a dim ond gwallt o liwiau naturiol sy'n dderbyniol.

**Os yw disgybl yn gwisgo colur neu baent ewinedd lliw i'r ysgol, bydd gofyn iddynt ei dynnu ar ddechrau'r dydd.** Os yw lliw gwallt disgybl yn annerbyniol, bydd gan yr ysgol yr hawl i dynnu'r disgybl o wersi arferol a rhoi gwaith i'w gwblhau dan oruchwyliaeth nes i'r mater gael ei ddatrys.

**Am resymau ymarferol o ran iechyd a diogelwch, ni chaniateir gwisgo clustlysau na thlysau yn yr ysgol.**

Os yw disgybl yn gwisgo tlysau, bydd rhaid mynd â'r eitem i'r swyddfa i'w gadw tan ddiwedd y dydd. Ni allwn gynnig iawndal am dlysau a gollir yn yr ysgol.

**Os yw'ch plentyn yn dymuno cael tyllu ei glustiau, gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod hyn yn digwydd ar ddechau gwyliau'r haf fel bod digon o amser i'r tyllau wella cyn mis Medi.**

### **FFÔN SYMUDOL AC OFFER GWRANDO PERSONOL**

Ni chaniateir i'r disgyblion gario ffôn symudol yn yr ysgol. Lle bo angen ffonio ynglŷn â materion ysgol, gellir cael caniatâd i ddefnyddio ffôn yr ysgol yn y Dderbynfa. Os oes gwir angen dod â ffôn symudol i'r ysgol yn achlysurol oherwydd argyfwng, dylid rhoi llythyr i'r Arweinydd Blwyddyn yn esbonio'r angen a rhoi'r ffôn mewn amlen yn y Dderbynfa wrth gyrraedd yr ysgol a'i gasglu am 3.00yh.

**Nid oes hawl gan ddisgybl ddod ag offer gwranddo personol megis iPod, MP3, CD, disgiau neu raglenni cyfrifiadurol ar ffon-gof.** Mae rhai o'r eitemau uchod yn gostus ac nid ydynt yn rhan hanfodol o fywyd ysgol - ni all yr ysgol gymryd cyfrifoldeb dros eu diogelwch. Gyda'r dechnoleg fodern mor ddatblygedig hefyd, rhaid gwarchod diogelwch a lles pob unigolyn ar y safle.

Os welwn ffôn neu eitem gwranddo personol gan eich plentyn yna bydd gofyn iddo/iddi fynd â'r eitem i'r swyddfa i'w gadw tan ddiwedd y dydd. Os digwydd i'ch plentyn gael ei anfon i'r swyddfa deirgwaith, byddwn yn cysylltu â rhiant/gwarcheidwad i drafod y mater. **(Dilynir yr un drefn ar gyfer tlysau o unrhyw fath.)**

### **LLYFRAU AC OFFER**

Disgwylir i bob disgybl ddod â'r llyfrau a'r offer angenrheidiol i bob gwers. Mae hyn yn sicrhau fod disgyblion yn barod i ddysgu ac mae'n osgoi unrhyw wrthdaro dianghenraid. Disgwylir i ddisgyblion gadw eu llyfrau mewn cyflwr da er mwyn eu dychwelyd ar ôl gorffen eu defnyddio. Os yw llyfrau neu offer yn cael eu difrodi neu eu colli, bydd gofyn i'r disgybl dalu'n llawn amdanynt.

**Ni ddylai disgyblion ddod â hylif cywiro (e.e. Tippex) na pheniau ffelt i'r ysgol.**

Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru mae'r Campws yn ardal **DIM YSMYGU**.

### **GWYLIAU 2013-2014**

	<b>Tymor yn dechrau</b>	<b>Hanner Tymor yn dechrau</b>	<b>Hanner Tymor yn gorffen</b>	<b>Tymor yn gorffen</b>
<b>Hydref 2013</b>	Llun 2 Medi	Llun 28 Hydref	Gwener 1 Tachwedd	Gwener 20 Rhagfyr
<b>75 Diwrnod</b>				
<b>Gwanwyn 2014</b>	Llun 6 Ionawr	Llun 24 Chwefror	Gwener 28 Chwefror	Gwener 11 Ebrill
<b>50 Diwrnod</b>				
<b>Haf 2014</b>	Llun 28 Ebrill	Llun 26 Mai	Gwener 30 Mai	Llun 21 Gorffennaf
<b>70 Diwrnod</b>				

**Gŵyl y Banc: Dydd Llun 5 Mai 2014**



Ysgol Gyfun Garth Olwg  
Y Brif Ffordd  
Pentre'r Eglwys  
Pontypridd  
CF38 1DX

Rhif Ffôn: 01443 219580  
Ffacs: 01443 219596  
e-bost: [gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk](mailto:gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk)  
Gwefan: [www.gartholwg.org.uk](http://www.gartholwg.org.uk)

**Pennaeth: Mrs. Angela Williams**